



Canllawiau ar gyfer Darpar Aelodau Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy

Rhagymadrodd

Mae Cyngor Sir Fynwy yn recriwtio aelodau newydd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) yn cynghori'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac eraill ar ffyrdd o wella hawliau tramwy cyhoeddus a manau gwyrdd yn Sir Fynwy.

Swyddi gwirfoddol yw'r rhain i roi cyngor ar faterion mynediad i gefn gwlad a helpu i gefnogi gwelliannau i fynediad lleol.

Rydym yn chwilio am aelodau sydd ag amrywiaeth eang o ddiddordebau ac arbenigedd fel y gall y Fforwm newydd helpu i gefnogi gwella mynediad i gefn gwlad i bob defnyddiwr a gwneud y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Rydym am i'r Fforwm newydd adlewyrchu'r ystod ehangaf o ddiddordebau. Felly, gallech fod yn ddefnyddiwr cefn gwlad a mynediad awyr agored, yn berchennog neu'n rheolwr tir, yn wirfoddolwr cymunedol neu fynediad, yn weithredwr twristiaeth lleol neu'n ymwneud â hybu a chefnogi mynediad i gefn gwlad er lles ac iechyd. Os ydych yn fodlon rhannu eich arbenigedd a chymryd rhan yn y Fforwm Mynediad Lleol am y tair blynedd nesaf, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Er bod aelodau'n cael eu penodi'n bersonol, yn unol â'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad o fynediad i gefn gwlad, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ddarpar aelodau sydd â chysylltiadau da a gweithredol â sefydliadau, partneriaethau a grwpiau diddordeb lleol perthnasol.

Mae'r Fforwm yn ceisio cynnal cydbwysedd buddiannau gan gynnwys tirlfeddianwyr a rheolwyr tir, pob math o ddefnyddwyr mynediad a'r rhai sy'n cynrychioli buddiannau eraill, megis iechyd, mynediad i bawb a chadwraeth.

Cefndir

Mae'r Fforwm yn rhan o ofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynghori'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyrrff eraill ar wella mynediad cyhoeddus at ddibenion hamdden awyr agored a mwynhad o'r ardal, a cynghori a chynorthwyo gyda gweithredu'r Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad. Rhaid i'r cyrrff hyn, yn ôl y gyfraith, roi sylw i gyngor perthnasol a roddir gan y Fforwm.

Mae'n cynnwys rhwng 12 a 22 o aelodau. Penodir aelodau am gyfnod o 3 blynedd. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob chwarter fel arfer. Rhaid i'r Fforwm gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn; fodd bynnag mae'n cyfarfod bob chwarter fel arfer.

Meysydd Gwaith

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn cynghori ar bob agwedd ar fynediad i gefn gwlad, gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus a hawl mynediad i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig. Mae angen i'r Fforwm ystyried pob math o fynediad gan gynnwys cerdded, marchogaeth, beicio a defnydd modurol. Pennir agenda'r Fforwm gan yr aelodau, mewn cytundeb â'r awdurdod lleol.

Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Fforwm wedi:

- Cynorthwyo gyda chwblhau a chyflawni Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad (Hawliau Tramwy) (CGHT)
- Wedi gwneud sylwadau ar amrywiol ymgynghoriadau statudol neu eraill, gan gynnwys mapio teithio llesol ac ar gynigion polisi Llywodraeth Cymru
- Ystyried a chynghori ar welliannau i hawliau tramwy yn yr ardal
- Helpu i lywio prosiectau a rhaglenni partneriaeth i wella ac ehangu mynediad i gefn gwlad a gwirfoddoli / cyfranogiad cymunedol

Mae rhai materion y mae'n rhaid ymgynghori yn eu cylch, yn ôl statud, â Fforwm Mynediad Lleol, yn bennaf yn ymwneud â thir mynediad agored a datblygu, adolygu a gweithredu'r [Cynllun Gwella Mynediad i Gefn Gwlad \(Hawliau Tramwy Cyhoeddus\)](#).

Mae copïau o agendâu a chofnodion y Fforwm ar gael yma: [Manylion y Pwyllgor - Fforwm Mynediad Lleol \(monmouthshire.gov.uk\)](#) ac mae adroddiadau blynyddol y Fforwm ar gael yma <https://www.monlife.co.uk/outdoor/countryside-access/>

Rôl a Chyfrifoldebau

Mae rôl a chyfrifoldebau Aelodau y Fforwm Mynediad Lleol yn cynnwys bod: -

- Yn gynrychioliadol o ddefnyddwyr tir mynediad, neu hawliau tramwy, perchnogion neu feddianwyr tir, neu fuddiannau cysylltiedig eraill sy'n arbennig o berthnasol i Sir Fynwy.
- Yn ymrwymedig i swyddogaeth gadarnhaol y Fforwm, gan gymryd rhan mewn deialog adeiladol ac agored drwy ddarparu barn bragmatig a gwybodus
- Yn barod i ddarparu cyswllt a sianel gyfathrebu rhwng y Fforwm a sefydliadau cenedlaethol a lleol, partneriaethau a grwpiau buddiant perthnasol.
- Yn barod i fynd ar drywydd cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i waith y Fforwm, gan gynnwys cynrychioli'r Fforwm mewn digwyddiadau /

cyfarfodydd cyhoeddus a chysylltu â sefydliadau cenedlaethol a lleol perthnasol.

- Yn barod i wasanaethu ar y Fforwm am 3 blynedd o'r cyfarfod cyntaf.
- Disgwylir iddynt fynychu cymaint o gyfarfodydd â phosibl ond rhaid iddynt fynychu o leiaf un flwyddyn cyfarfod, fel arall gall eu haelodaeth ddod i ben (ni chaniateir dirprwyon ac eithrio fel sylwebyddion yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd).

Mae'n ddymunol bod Aelod FfMLI yn:

- Meddu ar gysylltiadau da a gweithredol gyda sefydliadau lleol perthnasol, partneriaethau, a grwpiau buddiant a gallu rhoi cyngor ar eu barn a lledaenu gwaith y FfMLI.
- Meddu ar brofiad lleol perthnasol o faterion mynediad
- Meddu ar brofiad o weithio ar, a chyfrannu at, fforymau neu weithgorau tebyg
- Preswyllo neu fod yn arbennig o gyfarwydd â / ag unrhyw ddiddordebau eraill sy'n arbennig o berthnasol i ardal y Fforwm (Sir Fynwy, ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd â'i Fforwm Mynediad Lleol ei hun).

Bydd y Cyngor yn: -

- Darparu lleoliad ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol.
- Darparu ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth a chyngor parhaus i'r Fforwm.
- Ad-dalu aelodau'r Fforwm am dreuliau rhesymol yr eir iddynt drwy aelodaeth uniongyrchol o'r Fforwm
- Cyfleu'r cyngor a roddir gan y Fforwm i'r aelod cabinet perthnasol / y sawl sy'n gwneud penderfyniad yn yr awdurdod ar adegau priodol.
- Hyrwyddo gwaith y Fforwm gan gynnwys paratoi adroddiad blynyddol o weithgareddau'r Fforwm.

Wrth ddewis aelodaeth newydd ar gyfer y Fforwm, mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau mynediad i gefn gwlad a thirfeddianwyr / rheolwyr, a chyn belled ag y bo modd rhwng pobl o wahanol rhyw, hil, oedran, anabledd, a nodweddion eraill.

Bydd y broses ddethol yn cynnwys cyfweiliad byr gyda phanel o dri aelod etholedig a fydd yn cynghori'r awdurdod penodi (cyfarfod llawn o'r Cyngor Sir).

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer aelodaeth cwblhewch y ffurflen gais amgaeedig a'i dychwelyd erbyn **15fed Ionawr 2024** i countryside@monmouthshire.gov.uk neu

Mynediad i Gefn Gwlad BywydMynwy,
Cyngor Sir Fynwy,
Neuadd y Sir

Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA